

Gwasanaethau Anabledd



A oes gennych nam, cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor, gwahaniaeth dysgu penodol fel dyslecsia neu ydych chi'n gwella o salwch neu anaf difrifol?

Dyma rai o'r pethau y gallem eu cynnig i chi:

- Rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a'r gefnogaeth a allai fod ar gael.
- Rhoi cyngor ar strategaethau i hwyluso astudio a thasgau bob dydd.
- Cynorthwyo gydag anghenion arholiadau, e.e. trefnu amser ychwanegol.
- Trefnu darpariaeth a chefnogaeth llyfrgell ychwanegol.
- Datblygu Cynllun Cefnogi Dysgu Personol.
- Cysylltu ar eich rhan, yn ôl yr angen a chyda'ch caniatâd chi, gydag aelodau staff i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol yn eu lle.
- Cadw mewn cysylltiad trwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost a newyddlenni.
- Cydweithio'n agos gyda'r tiwtor anabledd yn eich ysgol.

- Benthycha cyfarpar, e.e. recordwyr digidol (lle maent ar gael).
- Eich helpu i wneud cais am Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) os ydych yn gymwys.
- Trefnu mynediad i ystafelloedd technoleg gynorthwyol gyda chyfrifiaduron, sganiwr a meddalwedd technoleg gynorthwyol.
- Trefnu i ymgysguwyddo â llwybrau / hyfforddiant symudedd.
- Trefnu sgrinio anffurfiol am ddyslecsia ac / neu wahaniaeth dysgu penodol arall fel dyspraxia.
- Cyngor ar sut i gael asesiad diagnostig.
- Cynnig cefnogaeth sgiliau astudio arbenigol un i un.

Cyfrinachedd: Mae pob trafodaeth yn gyfrinachol ac ni wnawn rannu gwybodaeth oni bai bod rhywun yn y brifysgol angen gwybod, pan fydd hynny'n briodol a chyda'ch caniatâd chi.

Trefnu apwyntiad: Ffoniwch **01248 383620 / 382032** neu anfonwch e-bost i gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk i drefnu apwyntiad gydag un o'r cynghorwyr. Rydym yng Nghanolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn Neuadd Rathbone. Mae ein swyddfeydd yn agored o 9.00 a.m. tan 5.00 p.m. Llun i Ddydd Gwener.

Cyllid ychwanegol: Lwfans Myfyrwyr Anabl - Ar gyfer pwy?

Peidiwch â gadael i'r enw eich rhwystro! Grant yw'r Lwfans Myfyrwyr Anabledd (LMA) i helpu i dalu am y costau ychwanegol gall myfyrwyr eu hwynebu oherwydd 'anabledd', sy'n cynnwys wynebu rhwystrau o ganlyniad i gael nam, cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol parhaus, gwahaniaethau dysgu penodol fel dyslecsia neu fod ar y sbectrwm awtistiaeth.

Mae'r daflen hon ar gael mewn gwahanol fformat.